

## **CYNGOR BRO LLANLLWNI 12 IONAWR 2015**

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Ionawr 2015 am 8.00yh

Cadeirydd: Dewi Davies

Clerc: Eirlys Owen

Gohebydd y wasg: Dewi Davies

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd blwyddyn newydd dda i'r aelodau.

### **PLISMONA:**

Croesawyd Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar diogelwch yn gyffredinol.

### **Y CAE CHWARAE:**

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Yr oedd Playdale wedi cysylltu â'r Clerc ac yr oedd y gwaith o osod yr adnoddau yn ei lle wedi ei gwblhau, ac yr oeddent wedi gwneud archwiliad o'r adnoddau ar 07 Ionawr 2015. Yr oedd y cwmni yn bwriadu clirio defnyddiau oedd ganddynt ar ôl ar y cae erbyn 09 Ionawr 2015. Yr oedd angen gosod arwyddion newydd yn y cae chwarae sef "DIM CŴN AR Y CAE CHWARAE". Cytunwyd i anfon diolch i Hefin Harries, Maesnonni am dorri clawdd y cae chwarae ac am symud y pystion pel droed ar y cae chwarae, er mwyn gwneud lle i'r adnoddau newydd.

### **SEDDAU A PHOTIAU BLODAU:**

Yr oedd "Farmyard Nurseries" wedi plannu blodau gaeaf, ac yr oedd y Clerc wedi archebu y placiau.

### **CYLLID**

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

### **CINIO BLYNYDDOL:**

Penderfynwyd y byddai'r ginio ar nos Wener 20 Chwefror 2015 am 8yh, a bod angen i'r aelodau gysylltu â'r Clerc erbyn dechrau Chwefror gyda'r dewis o fwyd.

### **GWELLA DIOGELWCH AR Y FFYRDD - GWELLA TROEDFFORDD AR YR A485 :**

Llythyr i gadrnhau bod y cyllid wedi ei sicrhau i'r gwaith yma ac y byddai'r gwaith yn cymryd tua 10 wythnos i'w gwblhau.

### **GOLEUADAU SOLAR 30MYA:**

Yr oeddent yn eu lle ac yn gweithio. Nid oedd y goleuadau wedi bod yn gweithio oherwydd fandaliaeth.

### **YSGOL LLANLLWNI:**

Yn dilyn ymddeoliad Mrs Nans Davies fel Prifathrawes yr ysgol penderfynwyd yn unfrydol i ddanfôn llythyr oddi wrth y aelodau i ddymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad.